Fframwaith Arolygu Cyffredin Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae'r fframwaith hwn wedi cael ei drafod yn helaeth ac fe gaiff ei gyflwyno ar gyfer ein holl waith arolygu erbyn 2004, ar wahân i'n gwaith arolygu addysg y blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol. Caiff ei ddefnyddio am y tro cyntaf ym mis Medi 2002 pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer arolygu hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn sefydliadau addysg uwch ac ar gyfer arolygu addysg bellach a ddarperir gan sefydliadau addysg bellach. Caiff ei ddefnyddio ar y cyd gyda llawlyfr cyfarwyddiadau ar gyfer pob sector a fydd yn dangos sut y caiff ei ddefnyddio ym mhob cyd-destun. Caiff y llawlyfrau hyn eu gosod yn yr adran gyhoeddiadau yng ngwefan Estyn pan fyddant ar gael. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch hyn, cysylltwch â enquiries@estyn.gsi.gov.uk neu ffoniwch 029 2044 6446.

Estyn

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond fe'i cyllidir gan y Cynulliad dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru.

Beth mae Estyn yn ei arolygu?

Rydym yn gyfrifol am arolygu darpariaeth y canlynol:

- ysgolion meithrin a meithrinfeydd nas cynhelir[1];
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig, gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- addysg i oedolion a ddarperir gan awdurdodau lleol a chymdeithasau gwirfoddol;
- gwasanaethau cefnogi ieuenctid;
- Awdurdodau Addysg Lleol;
- addysg a hyfforddiant i athrawon;
- hyfforddiant yn gysylltiedig â gwaith;
- cwmnïau Gyrfaoedd Cymru; ac
- elfennau addysg, cyfarwyddyd a hyfforddi'r Fargen Newydd.

[1] Mae meithrinfeydd nas cynhelir yn cynnwys canolfannau teulu, meithrinfeydd dydd a chylchoedd chwarae yn y sector annibynnol, preifat a gwirfoddol sy'n cael eu cynnwys yn y Partneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Beth yw sail gyfreithiol yr arolygiadau hyn?

Rydym yn cynnal arolygiadau er mwyn cyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol a bennir mewn Deddfau Amrywiol ar gyfer y Prif Arolygydd. Y prif Ddeddfau yw:

- Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992;
- Deddf Arolygu Ysgolion 1996;
- Deddf Addysg 1997;
- Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998; a
- Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae ein gwaith arolygu hefyd yn cymryd i ystyriaeth ddeddfwriaeth sy'n rheoli Estyn a'r darparwyr addysgol eu hunain, gan gynnwys, er enghraifft, Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Diffiniad y termau a ddefnyddir yn y fframwaith

Darparwr: ysgol, coleg, darparwr hyfforddiant, darparwr gwaith ieuenctid, cwmni gyrfaoedd, neu sefydliad addysg uwch.

Profiadau dysgu: y cwricwlwm, rhaglen waith, cyrsiau a addysgir yn unigol a gweithgareddau eraill wedi'u cynllunio a ddarperir yn adeiladau'r darparwyr, oddi ar y safle neu ar adegau ar wahân i oriau arferol.

Dysgwr: plentyn, disgybl, myfyriwr, person ifanc, cleient neu hyfforddai.

Cynnwys

Cyflwyniad i'r fframwaith **1**

Beth yw pwrpasau arolygu? 1

Beth yw egwyddorion arolygu? 1

Beth fyddwn ni'n ei arfarnu ac yn adrodd amdano? 2

Sut byddwn yn cynnal arolygiadau? 2

Sut bydd arolygwyr yn ymddwyn? 3

Sut bydd timau arolygu yn ffurfio barn? 3

Beth fydd canlyniadau arolygu? 4

Y fframwaith arolygu **5**

Cyd-destun 7

Safonau 8

Ansawdd addysg a hyfforddiant 10

Arweinyddiaeth a rheolaeth 14

Cyflwyniad i'r fframwaith

Beth yw pwrpasau arolygu?

Pwrpasau arolygu yw:

- nodi cryfderau a diffygion er mwyn helpu darparwyr i wella ansawdd a safonau;
- darparu arfarniad annibynnol wedi'i gyhoeddi o ansawdd a safonau'r darparwr;
- hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r cyhoedd yn gyffredinol o safon ac ansawdd addysg a hyfforddiant; a
- nodi a hyrwyddo arfer da a helpu darparwyr i geisio sicrhau rhagoriaeth.

Bydd y broses arolygu'n ceisio ateb y cwestiwn allweddol:

Pa mor dda yw'r safonau a gyflawnir gan y dysgwyr a pha effaith gaiff ansawdd y ddarpariaeth a'r rheolaeth ar y rhain?

Beth yw egwyddorion arolygu?

Wrth weithredu'r fframwaith hwn, byddwn yn:

- sicrhau bod y broses arolygu o ansawdd uchel ac yn ymateb i anghenion dysgwyr;
- cynnwys darparwyr yn llawn yn y broses arolygu;
- cysylltu'r gwaith arolygu â adroddiad hunan-asesu y darparwr;
- cynnwys elfen o arfarnu cyfoedion yn y broses arolygu;
- cadw unrhyw ofynion ynghylch paratoi a darparu dogfennau i isafswm;
- canolbwyntio'r gwaith arolygu ar feysydd sy'n flaenoriaeth ym mholisi'r Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys delio ag amddifadedd cymdeithasol, cyfle cyfartal a datblygu cynaladwy;
- rhoi ar waith egwyddor cydraddoldeb ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yn ein gwaith arolygu i gyd, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pa bryd bynnag y meant yn addas;
- bod yn adeiladol wrth nodi a chefnogi darparwyr sydd â diffygion difrifol; a
- defnyddio'r fframwaith yn deg ac yn gyson ar draws pob sector addysg a hyfforddiant.

Beth fyddwn ni'n ei arfarnu ac yn adrodd amdano?

Bydd pob arolygiad yn canolbwyntio ar brofiadau dysgwyr ac yn arfarnu ac yn adrodd ar y cwestiynau allweddol canlynol:

- pa mor dda yw cyflawniadau'r dysgwyr?
- pa mor effeithiol yw'r broses addysgu, hyfforddi ac asesu?
- i ba raddau y mae profiadau dysgu'n diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?
- pa mor dda yw'r arweiniad a'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr?
- pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?
- pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?
- pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau?

Sut byddwn yn cynnal arolygiadau?

Wrth gynnal arolygiadau, byddwn yn:

- dilyn y fframwaith hwn, yr arweiniad perthnasol i'r sector, polisïau a threfniadau Estyn ei hunan, gan gynnwys ei Gynllun Iaith Gymraeg ac unrhyw arweiniad arall a ddatblygir i ddiwallu anghenion penodol;
- arolygu pob darparwr o leiaf unwaith bob chwe blynedd;
- defnyddio arolygwyr sydd wedi'u hyfforddi neu eu cymeradwyo gan Estyn yn unig;
- sicrhau bod gan y tîm arolygu y profiad a'r arbenigedd i arolygu pob elfen o'r ddarpariaeth a gynhwysir yn yr arolygiad yn effeithiol;
- defnyddio hunanasesiad y darparwr fel sail a man cychwyn yr arolygiad;
- briffio'r darparwr am y broses arolygu a chyfraniad y sefydliad iddo;
- casglu tystiolaeth gan ddysgwyr, staff y darparwr ac eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y darparwr, fel y bo'n addas;
- seilio canfyddiadau ar dystiolaeth o sampl addas o waith y darparwr;
- cynnwys staff y darparwr yn y broses arolygu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am faterion sy'n dod i'r amlwg;
- arfarnu agweddau allweddol y fframwaith gan ddefnyddio graddfa graddau pum pwynt a disgrifiadau i gyd-fynd â'r rhain; a
- rhoi adborth i'r darparwr ar y graddau, barnau'r arolygiad a'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r barnau hynny ar ddiwedd yr arolygiad.

Sut bydd arolygwyr yn ymddwyn?

Wrth gynnal yr arolygiad, bydd yr arolygwyr yn:

- gwneud eu gwaith mewn ffordd unplyg a chwrtais gan ddangos y sensitifrwydd dyladwy;
- arfarnu gwaith y darparwr mewn ffordd wrthrychol;
- adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd;
- cyfathrebu mewn ffordd eglur ac agored;
- gweithredu er lles dysgwyr; a
- pharchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn ystod eu cyfnod gwaith.

Sut bydd timau arolygu'n ffurfio barn?

Bydd yr arolygwyr yn sicrhau bod eu barnau'n:

- **gadarn** – yn seiliedig ar dystiolaeth ddigonol;
- **uniongyrchol** – yn seiliedig ar arsylwi gwaith y dysgwyr a'r darparwyr yn uniongyrchol;
- **dibynadwy** – yn seiliedig ar y meini prawf yn y fframwaith hwn;
- **dilys** – yn adlewyrchu'n gywir yr hyn a gyflawnir ac a ddarperir;
- **yn rhydd o ragfarn** – yn rhoi gwerth ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth;
- **cynhwysfawr** – yn cynnwys pob rhan o'r fframwaith hwn;
- **corfforaethol** – mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu barn gyfunol y tîm arolygu.

Beth fydd canlyniadau arolygu?

Yn ystod pob arolygiad:

- bydd y darparwr ac, os yw'n briodol, unrhyw bartneriaid eraill, yn cael adborth ar lafar am y canfyddiadau;
- cyhoeddir adroddiad sy'n cynnwys yr holl waith a aseswyd yn ystod yr arolygiad;
- cyhoeddir yr adroddiad yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Estyn;
- bydd yr adroddiad yn dilyn strwythur y fframwaith fel y dangosir ar dudalen 6. Bydd yr adroddiad yn nodi y nodweddion da a diffygion gwaith y darparwr ac yn gwneud argymhellion. Bydd yn cynnwys:
  - crynodeb o ganfyddiadau'r arolygiad;
  - arfarniad cyffredinol o'r darparwr;
  - argymhellion eglur er mwyn sicrhau gwelliant; ac
  - rhan sy'n cynnwys adrannau ar bob pwnc, rhaglen neu faes dysgu a arolygwyd.
- bydd y crynodeb yn adroddiad ar wahân ac yn cynnwys gwybodaeth am gefndir y darparwr a barnau am brif gryfderau a diffygion y darparwr;
- bydd y darparwr yn cael cyfle i sicrhau bod y ffeithiau yn adroddiad yr arolygiad yn gywir cyn ei gyhoeddi a chynnwys ymateb byr i'w ganfyddiadau yn yr adroddiad;
- bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy'n delio â'r argymhellion ac yn datblygu'r cryfderau a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad;
- bydd cyfle i bob darparwr arfarnu'r broses arolygu a'i ganfyddiadau ar ôl y digwyddiad;
- bydd y darparwr yn gallu manteisio ar drefn gwyno hysbys os na fydd yn fodlon â'r arolygiad;
- bydd trefniadau arbennig[2] yn berthnasol os canfyddir bod y ddarpariaeth yn cynnwys diffygion difrifol.

[2] Bydd llawlyfrau'n diffinio'r meini prawf a'r trefniadau i'w defnyddio lle canfyddir bod y ddarpariaeth yn cynnwys diffygion difrifol.

Y fframwaith arolygu

Seiliwyd y fframwaith ar yr egwyddorion a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar:

- gyflawniadau dysgwyr;
- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir;
- pa mor effeithiol ac effeithlon yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar saith **cwestiwn allweddol** sy'n berthnasol i'r darparwr yn gyffredinol, yn ogystal â bod yn berthnasol i agweddau o'i waith megis meysydd dysgu, pynciau, cyrsiau, rhaglenni a meysydd galwedigaethol.

Mae tabl ar gyfer pob cwestiwn allweddol. Ar yr ochr chwith, rydym wedi rhestru agweddau ar y ddarpariaeth i'w harfarnu ac i adrodd arnynt. Ar y dde, rydym wedi gosod y meini prawf i helpu arolygwyr i ffurfio'u barnau. Nid yw'r meini prawf yn ofynion adrodd ond maent yn darparu datganiadau sy'n disgrifio arfer da. Nid ydynt yn gynhwysfawr ac nid ydynt yn berthnasol ym mhob amgylchiad. Dylai arolygwyr eu defnyddio pan fyddant yn berthnasol. Gellir cael arweiniad pellach ynghylch sut i'w defnyddio mewn gwahanol sectorau yn y llawlyfrau cyfarwyddyd ar gyfer pob sector.

Bydd arolygwyr yn defnyddio **graddau** i grynhoi barn yn yr arolygiad gan ddefnyddio'r raddfa pum pwynt ganlynol:

Gradd 1: da gyda nodweddion rhagorol

Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig

Gradd 3: nodweddion da'n gorbwyso diffygion

Gradd 4: rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig

Gradd 5: llawer o ddiffygion pwysig.

Bydd adroddiadau arolygiadau'n nodi gradd eglur ar gyfer y saith elfen yn y fframwaith. Bydd arolygwyr yn adrodd y graddau hyn gan ddefnyddio'r radd a'r disgrifiad yn y ffurf uchod, er enghraifft:

Pa mor dda yw'r arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr – Gradd 2: nodweddion da a dim diffygion pwysig'.

Cynnwys y fframwaith arolygu

Cyd-destun

Safonau

1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Ansawdd addysg a hyfforddiant

2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

3. Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

7. Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Argymhellion

Cyd-destun

Dylai arolygwyr gynnig sylwadau ar:

- **natur y darparwr;**
- **ei flaenoriaethau a'i dargedau.**

Cytunir ar yr adran hon gyda'r darparwr.

Safonau

1. Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, gan gynnwys:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae dysgwyr yn:
eu llwyddiant o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig	• cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau; • cyflawni targedau a nodau dysgu cytunedig; • cyrraedd lefelau priodol mewn medrau allweddol, gan gynnwys cymhwysedd dwyieithog; a • llwyddo beth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol. ac i ba raddau y mae: • canlyniadau a chyfraddau argadw yn cymharu'n dda â'r cyfartaleddau cenedlaethol a meincnodau lleol a chenedlaethol; ac • y mae tueddiadau o ran perfformiad yn dangos gwelliant parhaus neu y cynhelir safonau uchel.
eu cynnydd wrth ddysgu	• dysgu gwybodaeth neu fedrau newydd, yn datblygu syniadau ac yn cynyddu eu dealltwriaeth; • deall yr hyn y maent yn ei wneud, pa mor llwyddiannus yw eu cynnydd a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella; ac • yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu potensial a symud ymlaen i'r cyfnod dysgu nesaf.

datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu	• dangos cymhelliant, gweithio'n gynhyrchiol a defnyddio'u hamser yn effeithiol; • ymddwyn yn gyfrifol ac yn parchu eraill; • cyrraedd lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb; • datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol, gan gynnwys y medrau angenrheidiol i gynnal dysgu gydol oes; • gwneud cynnydd da yn eu datblygiad personol, cymdeithasol, moesol a'u datblygiad ehangach; • dangos ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal a pharch at amrywiaeth mewn cymdeithas; ac • yn barod i gymryd rhan effeithiol yn y gweithle a'r gymuned.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

2. Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae athrawon a hyfforddwyr yn:
pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddi yn diwallu anghenion y dysgwyr a'r gofynion cwricwlwm neu gwrs	• cymell a herio dysgwyr i sicrhau rhagoriaeth; • sefydlu perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu; • meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes; • cynllunio'n effeithiol a chanddynt amcanion eglur y mae dysgwyr yn eu deall mewn sesiynau addysgu a phrofiadau dysgu eraill; • defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu a hyfforddi sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol dysgwyr; • hyrwyddo cyfle cyfartal, delio â materion yn ymwneud â chydraddoldeb o ran rhyw, hil ac anableddau mewn ffordd weithredol; • cwrdd ag anghenion ieithyddol y dysgwyr, gan gynnwys cynnig darpariaeth addysgu a hyfforddi dwyieithog; a • chynllunio i ddiwallu anghenion unigol dysgwyr mewn ffordd hyblyg a monitro ac adolygu eu cynnydd.
pa mor drylwyr yw'r asesu a sut y caiff ei ddefnyddio i gynllunio a gwella dysgu	• asesu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd; • cwrdd â gofynion statudol a gofynion cyrff rheoleiddio o ran cofnodi ac achredu cyflawniadau dysgwyr; • sicrhau bod dysgwyr yn deall diben asesu a'u bod yn rhan o'r broses cynllunio a gwella cynnydd; a • hysbysu'r rhai sydd â diddordeb dilys am gynnydd a chyflawniadau dysgwyr.

3. Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae profiadau dysgu yn:
i ba raddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr	• cwrdd â dyheadau dysgwyr a, phan fo hynny'n addas, yn rhoi'r cyfle iddynt sicrhau achrediad; • cynnig cydbwysedd, ehangder, hyblygrwydd, cydlynedd a dilyniant; • datblygu medrau sylfaenol a medrau allweddol dysgwyr; • ehangu a chyfoethogi profiad dysgwyr trwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys darpariaeth y tu allan i oriau arferol ac oddi ar y safle; • hyrwyddo datblygiad personol dysgwyr, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol; • cael eu cyfoethogi gan bartneriaethau effeithiol gyda darparwyr eraill a phawb sydd â diddordeb; a • cwrdd â gofynion y cwrs a gofynion cyfreithiol.
i ba raddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach	• darparu addysg gysylltiedig â gwaith; • hyrwyddo medrau dwyieithog dysgwyr ac adlewyrchu ieithoedd a diwylliant Cymru; • delio ag amddifadedd cymdeithasol a stereoteipio a sicrhau mynediad a chyfle cyfartal i bob dysgwr; • hyrwyddo addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy; • ystyried anghenion cyflogwyr; • datblygu medrau menter a medrau eraill y mae eu hangen i gynnal datblygiad economaidd; ac • adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu gydol oes ac adferiad cymunedol.

4. Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae darparwyr yn:
ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd a gynigir i ddysgwyr	• cynllunio a rheoli trefniadau gofal a gwasanaethau cefnogi yn effeithiol; • gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, gofalwyr a chyflogwyr, ac ystyried eu barn; • darparu gwybodaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar gael a chyfarwyddyd diduedd sy'n helpu dysgwyr i ddewis y cwrs sy'n addas iddynt; • meddu ar raglenni sefydlu sy'n helpu dysgwyr i setlo'n gyflym, deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau a gofynion y cwrs a'r rhaglen; • cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd personol o ansawdd uchel i ddysgwyr, gan gynnwys mynediad i addysg bersonol a chymdeithasol, rhaglenni tiwtor a gwasanaethau arbenigol; • monitro prydlondeb, presenoldeb, ymddygiad a pherfformiad dysgwyr a gweithredu'n gynnar ac yn addas yn ôl y gofyn; • cynnig addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd effeithiol sy'n helpu dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus; • sicrhau datblygiad iachus, diogelwch a lles pob dysgwr; a • meddu ar drefniadau effeithiol i amddiffyn plant a phobl ifanc ac er mwyn delio ag apeliadau a chwynion.
ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol	• dadansoddi anghenion dysgu unigol yn effeithiol; • darparu cefnogaeth ychwanegol i gwrdd ag anghenion unigol, gan gynnwys anghenion dysgwyr sydd ag anableddau corfforol a/neu ddysgu, nam ar eu synhwyrau ac anghenion arbennig eraill; a

	• darparu cefnogaeth briodol ar gyfer dysgwyr y mae eu hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd hwy ac ar gynnydd eraill.

ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal	• cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd addas i ddysgwyr, gan ystyried eu cefndir cymdeithasol, addysgol, ethnig neu ieithyddol; • hyrwyddo cydraddoldeb rhyw a herio stereoteipio yn newisiadau a disgwyliadau dysgwyr; • hyrwyddo cydberthynas dda rhwng hiliau ar draws pob maes gweithgarwch; • meddu ar fesurau effeithiol i ddileu ymddygiad gormesol, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil, bwlio a phob math o aflonyddu; • sicrhau triniaeth gyfartal i ddysgwyr anabl a gwneud addasiadau rhesymol rhag eu gosod dan anfantais sylweddol; ac • adnabod a pharchu amrywiaeth.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

5. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn:
pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uchel	• rhoi cyfeiriad eglur trwy gyfrwng gwerthoedd, nodau, amcanion a thargedau sy'n gwbl ddealladwy i bawb sy'n darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill; • meddu ar nodau a gwerthoedd amlwg sy'n hyrwyddo cydraddoldeb i bawb, ac a adlewyrchir yng ngwaith y darparwr; • ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol a chytundebau consortia; • gosod a chwrdd â thargedau a nodau heriol a realistig; • rheoli a gwella perfformiad staff unigol, timau ac adrannau; a • chynnal gwerthuso neu adolygu staff effeithiol er mwyn hyrwyddo'u datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth.
pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau	i ba raddau y mae llywodraethwyr ac aelodau eraill o'r bwrdd goruchwylio yn: • helpu i osod cyfeiriad strategol y darparwr; • monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd; a • chwrdd â gofynion rheoleiddiol a chyfreithiol.

6. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae arweinwyr a rheolwyr yn:
pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i arfarnu	• gwybod yn dda am berfformiad mewn meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol; • sefydlu trefniadau hunanarfarnu sy'n gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol; • ceisio canfod barn dysgwyr, staff a phobl eraill sydd â diddordeb a'u hystyried; a • sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â darparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau eraill yn deall y trefniadau hunanarfarnu ac yn cyfrannu'n llawn iddynt.
pa mor effeithiol yw'r broses o gynllunio er mwyn sicrhau gwelliant	• gosod blaenoriaethau a chamau gweithredu eglur er mwyn gwella; • sicrhau y cefnogir y blaenoriaethau trwy ddyrannu adnoddau digonol ar eu cyfer; a • dangos bod camau gweithredu wedi arwain at welliannau mesuradwy.

7. Pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Dylai arolygwyr arfarnu ac adrodd ar:	Wrth ffurfio barn, dylai arolygwyr ystyried, pan fo hynny'n berthnasol, i ba raddau y mae:
ddigonolrwydd, addasrwydd a defnydd o staff, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd	• digon o staff addysgu, hyfforddi a chefnogi sy'n gymwys, yn arbenigol a phrofiadol; • pob dysgwr yn cael mynediad at adnoddau dysgu priodol sy'n cyd-fynd â gofynion eu profiadau dysgu; ac • adeiladau ac ystafelloedd yn cynnig lleoliad addas ar gyfer addysgu, dysgu a cefnogaeth dda i bob dysgwr.
pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian	• adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n economaidd, effeithlon ac effeithiol; • staff addysgu, hyfforddi a chefnogi yn cael eu lleoli, eu rheoli a'u datblygu'n effeithiol; • adnoddau'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r darparwr ar gyfer datblygiad; a'r • defnydd o adnoddau yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian.

5. Argymhellion

Bydd pob adroddiad yn gwneud argymhellion eglur er mwyn sicrhau gwelliant ble mae angen. Bydd y rhain yn rhoi syniad eglur a phenodol i ddarparwyr o'r diffygion y bydd angen iddynt ddelio â nhw yn eu cynlluniau gweithredu dilynol. Bydd yr arolygwyr yn ysgrifennu'r argymhellion mewn Cymraeg neu Saesneg clir ac yn eu blaenoriaethu.